Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru
National Independent Safeguarding Board Wales

# Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 8 Hydref 2025 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- Dave Street (Aelod o'r Bwrdd)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)
- Pwyllgor Diogelu Ynys Bŷr, Mynychwr Allanol
- Taryn Stephens (Llywodraeth Cymru)

**Eitemau ar yr agenda a chrynodeb manwl:**

1. **Croeso ac ymddiheuriadau:** Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd ymddiheuriadau gan yr aelodau a oedd yn methu â mynychu.
2. **Datgan gwrthdaro o ran buddiannau:** Bu'r Bwrdd yn trafod y broses flynyddol a pharhaus ar gyfer datgan gwrthdaro o ran buddiannau. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am eu cyfrifoldebau, a chytunwyd i ffurfioli'r protocol a'i rannu â Llywodraeth Cymru.
3. **Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol:** Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu cymeradwyo, gan gydnabod bod y cyfarfod diwethaf yn anffurfiol oherwydd y nifer fach a oedd yn bresennol.

4. **Mynychwr Gwadd Allanol o Bwyllgor Diogelu Ynys Bŷr:**

   Tynnodd y cynrychiolydd sylw at adolygiadau o gam-drin hanesyddol ac at heriau o ran diogelu sy'n gysylltiedig â chrefydd, a gofynnodd am gefnogaeth y Bwrdd i sefydlu fforwm cenedlaethol. Cytunodd y Bwrdd i roi ystyriaeth briodol i hynny.

5. **Taryn Stephens, Llywodraeth Cymru:** Cafodd diweddariadau eu darparu a'u hystyried. Roeddent yn ymdrin â chyhoeddiadau allweddol, adolygiad y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gynnal o drefniadau llywodraethiant ar gyfer diogelu, adolygiadau ymarfer cenedlaethol sy'n parhau, a materion sy'n ymwneud ag aelodaeth y Bwrdd Cenedlaethol. Bydd diweddariad ysgrifenedig ynghylch gweithredu argymhellion a wnaed ar gyfer Llywodraeth Cymru gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cael ei ddarparu erbyn diwedd y mis.

6. **Rhaglen Waith y Bwrdd Cenedlaethol:**

a. *Pennu arweinwyr:* Bu'r Bwrdd yn trafod mapio meysydd gwaith a phennu arweinwyr, gydag aelod cynorthwyol. Bwriedir diwygio'r trefniadau yn dilyn newid yn yr aelodaeth, a'u dosbarthu gyda'r cynllun gwaith mewnol.

b. *Diweddariad ynghylch y wefan a strategaeth gyfathrebu:* Mae'r arweinwyr cyfathrebu yn diweddaru'r contract ar gyfer rheoli'r wefan ac yn paratoi tendr ar gyfer strategaeth gyfathrebu newydd.

c. *Diweddariad ynghylch yr Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant:* Parheir i ganolbwyntio ar brofiad go iawn defnyddwyr gwasanaeth a'r modd y caiff eu lleisiau eu clywed. Bydd y canfyddiadau rhagarweiniol yn cael eu rhannu yng nghynhadledd y Bwrdd Cenedlaethol ym mis Tachwedd.

ch. *Ymgynghoriad/Digwyddiad am swyddi cyfrifol:* Mae gweithdy wedi'i drefnu. Bwriedir i'r Bwrdd Cenedlaethol fod yn bresennol ynddo.

d. *Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Cymru) a Phŵer Mynediad (Lloegr):* Mae'r maes ymarfer hwn wrthi'n cael ei ystyried yn Lloegr. Bydd presenoldeb cynrychiolydd o'r Bwrdd Cenedlaethol (DS) o gymorth i gyfrannu i'r drafodaeth ac yn ei gwneud yn bosibl dysgu oddi wrth Gymru.

dd. *Wythnos Diogelu:* Mae'r gwaith o gynllunio'r gynhadledd yn mynd rhagddo. Mae'r siaradwyr a'r themâu wedi'u cadarnhau ac mae'r ffïoedd ar gyfer siaradwyr allanol wedi'u cymeradwyo. Mae angen cytuno ar yr agenda derfynol a'i dosbarthu.

6. **Diweddariad ynghylch y gyllideb:** Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth y gyllideb bresennol, gan nodi'r dyraniad ar gyfer gwaith sydd wedi'i gynllunio a'r costau ychwanegol ar gyfer y wefan a siaradwyr y gynhadledd.

7. **Adroddiad Blynyddol:** Bydd y Cadeirydd yn drafftio'r Adroddiad Blynyddol gan ymgorffori adborth a'r themâu allweddol. Y nod yw dosbarthu drafft ohono ym mis Hydref.

8. **Diweddariadau gan y Byrddau Rhanbarthol:** Cafodd materion a oedd yn codi o Fwrdd Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Cwm Taf eu hystyried, a oedd yn cynnwys agweddau ar alw a chapasiti. Ystyrid bod defnyddio cofrestrau risg yn ddefnyddiol. Bydd Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol (TY) yn mynychu Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru nes y caiff Aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol sy'n siarad Cymraeg ei recriwtio.

10. **Diweddariadau gan randdeiliaid:** Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau a thrafododd y gwaith a wneir gan y Bwrdd Gweithdrefnau, y Fforwm Gwrthgaethwasiaeth, a Grŵp y 4 Gwlad.

11. **Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd Cenedlaethol a dyddiadau i'r dyfodol:** Cytunodd y Bwrdd i gynnal diwrnod cwrdd i ffwrdd ar 17 Tachwedd (y lleoliad i'w gadarnhau) a chynnal cyfarfod byr ar 11 Tachwedd, ac y byddai cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnal ar ddydd Mercher o hyd.

11. **Unrhyw fater arall:** Bydd y Cadeirydd yn rhoi sylw i gŵyn a gafodd y Bwrdd Cenedlaethol.

12. Daethpwyd â'r cyfarfod i ben, ac roedd y cyfarfodydd nesaf wedi'u trefnu ar gyfer 11 ac 17 Tachwedd.